

CABINET CYNGOR GWYNEDD

Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	18fed o Ionawr, 2022
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Nia Jeffreys
Swyddog Cyswllt:	Geraint Owen
Rhif Ffon Cyswllt:	32335
Teitl yr Eitem:	Dathlu Dydd Gŵyl Ddewi

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- Dynodi dydd Gŵyl Ddewi 2022 yn ddiwrnod o wyliau ychwanegol i staff y Cyngor sy'n gweithio ar delerau gwaith gweithwyr llywodraeth leol, ar gyfer dathlu diwrnod ein nawddsant cenedlaethol i'w ariannu yn unol a paragraff 2.10 o'r adroddiad
- Awdurdodi swyddogion i ymchwilio i opsiynau posib i wneud trefniant o'r fath yn un parhaol ac i'r perwyl hwnnw cynnal trafodaethau pellach efo'r undebau llafur cydnabyddedig a pharhau i lobio am gefnogaeth Llywodraeth San Steffan i ddatganoli i Lywodraeth Cymru y grym iddynt fedru sefydlu gwyliau banc i Gymru.

2. CEFNDIR A'R RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn ar y 7fed o Hydref, penderfynwyd fel a ganlyn:

- Bod y Cyngor yn gofyn i'r Cabinet ystyried dynodi Dydd Gŵyl Ddewi yn swyddogol drwy roi diwrnod o wyliau i'w gweithlu er dathlu Diwrnod ein Nawddsant ar Fawrth 1af 2022 a phob blwyddyn o hynny ymlaen.*
- Bod y Cyngor yn galw ar Lywodraeth San Steffan i ddatganoli i Lywodraeth Cymru y grym iddynt fedru creu gwyliau banc i Gymru (drwy'r Banking and Financial Dealings Act 1971) – yn yr un modd ag yw'r drefn eisoes yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon.*

2.2 Mae gwyliau blynyddol yn fater cytundebol sydd yn ymwneud â chyflogaeth staff y Cyngor. Mae hynny yn golygu fod gofyn i ni fel cyflogwr drafod y mater yn lleol fel rhan o amodau gwaith gweithwyr llywodraeth leol ac hynny hefo cynrychiolwyr y tri undeb cydnabyddedig, sef Unsain, y GMB ac Unite. Yn hynny o beth, y disgwyliad fyddai bod y Cyngor, fel cyflogwr, a'r undebau llafur cydnabyddedig yn dod i gonsensws ar y ffordd ymlaen.

2.3 Fodd bynnag, mae amodau gwaith athrawon yn ein hysgolion yn fater y byddai'n ofynnol ei drafod ar lefel cenedlaethol ac yn hynny o beth nid oes modd sefydlu Dydd Gŵyl Ddewi fel diwrnod o wyliau i athrawon trwy ddod i gytundeb yn lleol. Ar y llaw arall, mae gweddill staff yr ysgolion yn gweithio yn unol a thelerau gwaith gweithwyr llywodraeth leol ac felly byddai unrhyw gytundeb a wireddir yn lleol yn berthnasol iddynt hwy.

- 2.4 Yng nghyd-destun yr hyn y gellir ei gytuno arno yn lleol, mae swyddogion eisoes wedi tynnu sylw'r undebau at y cynnig a gymeradwywyd yng nghyfarfod y Cyngor llawn, ac wedi cynnal trafodaeth anffurfiol ar yr opsiynau y gellir eu hystyried os yw'r Cabinet yn casglu y dylid ceisio sefydlu diwrnod o wyliau ychwanegol. Dyma'r opsiynau hynny:
- Caniatáu diwrnod ychwanegol o wyliau blynyddol i bob aelod staff perthnasol i'w gymryd ar un ai y 1af o Fawrth yn flynyddol neu ar y diwrnod gwaith agosaf pe bai'r 1af o Fawrth yn disgyn ar y penwythnos – gyda'r staff hynny a fyddai'n gorfod gweithio ar y diwrnod hwnnw yn cael y rhyddid i gymryd y diwrnod ychwanegol ar adeg arall yn ystod y flwyddyn.
 - Mae'r Cyngor eisoes yn caniatáu diwrnod a hanner ychwanegol i gyfanswm gwyliau blynyddol staff. Mae'n bosib cynnig fod un diwrnod o'r diwrnod a hanner ychwanegol hwnnw yn cael ei ddefnyddio i bwrpas sicrhau diwrnod o wyliau ar ddydd Gŵyl Ddewi. O weithredu yn y modd yma, byddai carfan sylweddol o staff y Cyngor yn colli'r rhyddid i gymryd y diwrnod o wyliau hwnnw ar adeg o'u dewis, fel ag y gwneir yn bresennol.
 - Cyflwynodd yr undebau opsiwn arall i'w ystyried, sef cyfuniad o'r ddau gynnig olaf h.y. bod y Cyngor yn ariannu hanner diwrnod ychwanegol o wyliau, gan hefyd ail ddynodi hanner diwrnod o'r gwyliau blynyddol ychwanegol (sydd eisoes yn cael ei roi) er mwyn sefydlu Dydd Gŵyl Ddewi fel diwrnod o wyliau i staff.
- 2.5 O ganiatáu diwrnod ychwanegol o wyliau ar gyfer dathlu dydd Gŵyl Ddewi, byddai cost oddeutu £200,000 yn flynyddol i'r Cyngor (oddeutu £100,000 o weithredu'r opsiwn olaf sydd yn cynnig ychwanegu hanner diwrnod o wyliau ac ail-ddynodi hanner diwrnod arall o'r cyfanswm gwyliau a ganiateir yn bresennol). Mae'r costau hyn yn bennaf oherwydd yr angen i gyflogi staff achlysurol i sicrhau parhad gwasanaeth yn absenoldeb staff sefydlog.
- 2.6 Yn amlwg, ni fyddai angen cytundeb ffurfiol efo'r undebau llafur cydnabyddedig yng nghyswllt yr opsiwn cyntaf ond byddai angen darparu cyfnod o ymgynghori, gyda golwg i sicrhau cytundeb torfol gyda cynrychiolwyr yr undebau, pe byddai'r Cabinet yn ffafrio un o'r ddau opsiwn arall. Golyga hynny na fyddai amser digonol er mwyn cyflwyno'r newid posib i'r amodau gwaith ar gyfer Dydd Gŵyl Ddewi 2022.
- 2.7 Mae hynny yn arwain at un opsiwn tymor byr arall, sef yr hyn sy'n cael ei argymhell fel y penderfyniad a geisir, ple bo'r Cabinet yn caniatáu un diwrnod ychwanegol o wyliau ar gyfer eleni yn unig gan ddynodi'r diwrnod hwnnw ar gyfer Dydd Gŵyl Ddewi (heblaw am y staff hynny a fyddai'n rhaid gweithio ar y diwrnod hwnnw a fyddai'n gallu cymryd y diwrnod ychwanegol ar adeg o'u dewis yn ystod y flwyddyn). Byddai gwneud hynny yn arwain at gost unwaith ac am byth oddeutu £200,000 ond hefyd yn caniatáu'r amser angenrheidiol ar gyfer ymchwilio i opsiynau posib i wneud trefniant o'r fath yn un parhaol ac i'r perwyl hwnnw cynnal trafodaethau pellach efo'r undebau llafur cydnabyddedig.
- 2.8 Hyd yn oed pe na fyddai'r Cabinet am symud ymlaen i sefydlu trefniant parhaol ar y pwynt yma, byddai cymeradwyo un diwrnod o wyliau ychwanegol am eleni yn dilyn trywydd y mae rhai awdurdodau cyhoeddus eraill wedi'i wneud yn ddiweddar e.e. Parc Cenedlaethol Eryri, Cyngor Conwy.
- 2.9 Byddai penderfynu dynodi diwrnod ychwanegol o wyliau am eleni yn unig i gychwyn, hefyd yn rhoi'r cyfle i geisio adnabod opsiynau ychwanegol i'r tri sydd wedi dod i'r amlwg hyd yma, sef y rhai a nodir ym mharagraff 2.4 o'r adroddiad hwn. Rhaid cydnabod fod cost i wireddu'r opsiynau sydd wedi eu hadnabod hyd yma felly bydd cyfle dros y misoedd nesaf i geisio adnabod opsiynau pellach hefyd.

- 2.10 Am eleni, fel a amlygir yn sylwadau y Pennaeth Cyllid, mae modd ariannu'r gost o gyflawni'r cynllun hwn o danwariant net. Fodd bynnag, os am ddod i drefniant parhaol ar gyfer y blynnyddoedd dilynol byddai angen gwneud darpariaeth benodol yng nghyllideb referniw y Cyngor. Gan nad ydym ar hyn o bryd wedi gorffen ymchwilio i'r holl opsiynau yn llawn a sefydlu'r costau ynghlwm i'r opsiynau hynny, ni ellir dod i benderfyniad parhaol ar y pwynt yma. Felly, yn dilyn sefydlu'r holl opsiynau posib, bydd angen i'r Cabinet gloriannu'r gost o wireddu trefniant parhaol yn erbyn blaenoriaethau eraill y Cyngor.
- 2.11 Eto, yn y cyd-destun yma, atgoffir aelodau'r Cabinet na fyddai modd cynnwys athrawon oherwydd nad yw'r hawl gan y Cyngor i newid yr amodau gwaith hynny yn lleol. Yn amlwg, os am ganiatáu diwrnod ychwanegol o wyliau yn barhaol yna byddem yn dymuno cynnwys athrawon yn y trefniant hwnnw. Argymhellir felly y dylid hefyd parhau i alw ar lywodraeth San Steffan i ddatganoli i Lywodraeth Cymru y grym iddynt fedru creu gwyliau banc i Gymru.
- 2.12 Gellir cadarnhau bod yr oblygiadau cydraddoldeb wedi'u hasesu a bod yr argymhelliad a wneir yn gydnaws a dyletswydd y Cyngor o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

3. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

- 3.1 Yn ei gyfarfod ar y 7 o Hydref, 2021, bu i'r Cyngor hefyd alw ar Lywodraeth San Steffan i ddatganoli i Lywodraeth Cymru yr hawl i fedru sefydlu gwyliau banc ar gyfer Cymru, yn yr un modd ag y gwneir eisoes ar gyfer llywodraethau'r Alban a Gogledd Iwerddon. Ysgrifennodd Cadeirydd y Cyngor at Lywodraeth San Steffan yn ddiweddarach a derbyniwyd ymateb ar y 10 o Ragfyr, 2021 gan yr Is-Ysgrifennydd yn yr Adran Strategaeth Busnes, Ynni a Diwydiannol yn nodi nad oes gan Lywodraeth San Steffan unrhyw gynlluniau i newid y trefniadau presennol ar gyfer sefydlu gwyliau banc yng Nghymru (gweler yr ohebiaeth yn atodiadau 1 a 2).
- 3.2 Ar sail yr ymateb hynod o siomedig yma, mae'n amlwg nad oes unrhyw fwriad gan Llywodraeth bresennol San Steffan i ddatganoli'r hawl hwn ar hyn o bryd ac felly ni fydd modd ymateb yn gadarnhaol i ddymuniad y Cyngor llawn trwy benderfyniad gan Lywodraeth Cymru am y tro.
- 3.3 O ganlyniad, cyflwynir yr argymhellion i'r Cabinet fel yr unig fodd ymarferol bosib o sefydlu dydd Gŵyl Ddewi 2022 fel diwrnod o wyliau i staff y Cyngor.

4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Pe byddai'r Cabinet yn ffafrio'r opsiwn i ddynodi Dydd Gŵyl Ddewi fel gwyliau ychwanegol ar gyfer 2022 yn unig ac yna'n awyddus i roi ystyriaeth bellach i'r hyn ellir ei wireddu yn y tymor hirach, bydd modd addasu hawliau gwyliau staff am y flwyddyn gyfredol yn syth gan hefyd gynnal trafodaethau pellach efo'r undebau llafur cydnabyddedig ynglŷn a threfniadau i'r dyfodol, gyda golwg i adrodd ymhellach ar yr argymhellion ym Mehefin eleni.

5. UNRHYW YMGYNGHORIAD A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Y Swyddog Monitro

Fe nodir yn arddodiad fod yr argymhelliad yma yn deillio o gais gan y Cyngor Llawn ar y 7fed o Hydref i'r Cabinet ystyried dynodi diwrnod o wyliau staff ar Ddydd Gwyl Dewi. Gan fod penderfyniad o'r fath yn fater Cabinet nid oes unrhyw reidrwydd gweithredu y penderfyniad Cyngor yma ac mae'n rhaid i'r Cabinet roi ystyriaeth briodol i'r hyn a argymhellir. Amlygir y rhesymeg am gynnig un tro sydd yn cydnabod fod gofynion ymgynghori a thrafod pellach ar gyfer sefydlu unrhyw drefniant parhaol petai dymuniad. Rwy'n fodlon fod yr argymhelliad yn briodol.

Y Pennaeth Cyllid

Gallaf gadarnhau fod swyddogion yr Adran Gyllid wedi cynorthwyo awdur yr adroddiad i adnabod y costau byddai'r Cyngor yn eu hwynebu wrth ddynodi Dydd Gŵyl Ddewi yn ddiwrnod o wyliau i'r gweithlu ac rwyf yn fodlon fod yr wybodaeth ariannol a nodir yn yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o'r amcangyfrifon hynny.

Mae adroddiad *Cyllideb Refeniw 2021/22 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2021*, sydd yn eitem ar wahân ar raglen y cyfarfod yma, yn nodi fod y pwysau ar nifer o gyllidebau corfforaethol eu natur ddim cymaint â'r hyn a ragwelwyd eleni a ceisir penderfyniad i drosglwyddo'r tanwariant net ar y cyllidebau hyn i Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol. Byddai'r trosglwyddiad yma, petai'r Cabinet yn ei ganiatáu, yn sylweddol fwy na chostau dynodi Dydd Gŵyl Ddewi yn ddiwrnod o wyliau i'r gweithlu. Byddai felly yn briodol a rhesymol i ddigolledu adrannau fyddai'n gweld cynnydd un-tro yn eu costau fel canlyniad i'r penderfyniad hwn allan o'r Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol, fel bo'r angen yn codi. Ar y llaw arall, petai'r Cabinet yn penderfynu peidio trosglwyddo'r tanwariant byddai hwnnw yn parhau ar gael i'w ddefnyddio i'r pwrpas yma

Cadeirydd y Cyngor
Chairman of the Council
Y Cynghorydd / Councillor Simon Glyn



Gofynnwch am/Ask for: **Eirian Roberts**
 (01286) 679018 Ein Cyf / Our Ref: ER
 (01286) 671072 Eich Cyf / Your Ref:
E-bost / E-mail: eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

Y Gwir Anrhydeddus Kwasi Kwarteng, AS
Ysgrifennydd Gwladol Dros Fusnes, Ynni a Strategaeth
Ddiwydiannol
1 Victoria Street
Llundain. SW1H 0ET

17 Tachwedd, 2021

Annwyl Mr Kwarteng,

Hoffwn ddwyn eich sylw at y cynnig canlynol a fabwysiadwyd yn unfrydol mewn cyfarfod diweddar o Gyngor Gwynedd:-

“PENDERFYNWYD:-

1. **Bod y Cyngor yn gofyn i'r Cabinet ystyried dynodi Dydd Gŵyl Ddewi yn swyddogol drwy roi diwrnod o wyliau i'w gweithlu er dathlu Diwrnod ein Nawddsant ar Fawrth 1af 2022 a phob blwyddyn o hynny ymlaen.**
2. **Bod y Cyngor yn galw ar Lywodraeth San Steffan i ddatganoli i Lywodraeth Cymru y grym iddynt fedru creu gwyliau banc i Gymru (drwy'r Banking and Financial Dealings Act 1971) – yn yr un modd ag yw'r drefn eisoes yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon.”**

Gosododd y cynigydd y cyd-destun i'w gynnig gan olrhain rhywfaint o hanes Dewi Sant, nawddsant Cymru, a'i arwyddocâd i'r Cymry, gan hefyd bwysleisio mai diben y cynnig oedd ceisio adfer rhywfaint o hunan-barch o ran ein arwahanrwydd a'n hunaniaeth fel cenedl.

Roedd rhai o'r sylwadau a wnaed yn ystod y drafodaeth yn cynnwys:-

- Y cytunid yn llwyr â'r egwyddor, a chefnogid yr alwad i sefydlu Dydd Gŵyl Dewi fel gŵyl banc yng Nghymru.
- Ei bod yn warthus ac yn embaras bod yr hawl i greu gwyliau banc wedi'i roi i Lywodraeth yr Alban ac i Lywodraeth Gogledd Iwerddon, ond nid i Lywodraeth Cymru.
- Ei bod yn sarhad ar y Cymry ers canrifoedd nad oes gennym fel gwlad yr hawl i ddatllyu gŵyl ein nawddsant. Y ddadl o hyd yw'r gost, ond mae gŵyl banc yn hwb anhygoel i economi cefn gwlad.
- Bod dyletswydd ar unrhyw un sy'n byw yng Nghymru i gefnogi ein nawddsant, waeth beth yw eu cefndir a'u traddodiad.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich ymateb i'r cynnig hwn fel y gallaf adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Cyngor.

Yn gywir,

Y Cynghorydd Simon Glyn
Cadeirydd y Cyngor

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.llyw.cymru

CYFIEITHIAD O YMATEB LLYWODRAETH SAN STEFFAN I LYTHYR
CADEIRYDD Y CYNGOR

10 o Ragfyr, 2021

Annwyl Gynghorydd Glyn,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Tachwedd at y Gwir Anrhydeddus Kwasi Kwarteng AS, ynglŷn a'r cynnig i gydnabod Dydd Gŵyl Ddewi yn ffurfiol fel gŵyl banc yng Nghymru. Rwyf yn ymateb gan bod y mater yn disgyn o fewn fy mhortffolio gweinidogol.

Tra ein bod yn gwerthfawrogi bod pobl Cymru eisiau dathlu eu nawdd sant, mae mwy o bobl yn gweithio ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr nag oes rhwng yr Alban a Lloegr. Gallai'r integreiddio agosach hyn arwain at amharu mwy ar fusnes. Pe byddai ganddom wyliau banc ar wahân yng Nghymru a Lloegr, mae'n anodd rhagweld yr effaith a fyddai hynny yn ei gael ar weithwyr a busnesau.

Tra byddai gŵyl banc ychwanegol o fudd i rai cymunedau a sectorau, byddai'r gost o ŵyl banc ychwanegol i'r economi yn parhau'n sylweddol. Mae asesiad a wnaed yn dilyn yr ŵyl banc ychwanegol ar gyfer y Jiwibili Diemwnt yn 2012 yn arddangos (ar draws y DU yn ei gyfanrwydd) bod y gost i'r economi o'r ŵyl banc ychwanegol hwnnw oddeutu £1.2 biliwn.

Mae pob setliad datganoli unigol wedi'i datblygu gan ystyried y cefndir o'r gwahanol hanes a'r systemau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol a chyfreithiol. Mae gwahanol ffactorau angen ystyriaethau ar wahân. Nid yw'r hyn sy'n gweithio mewn un lle yn gweithio mewn man arall pob tro ac ni ddylem dybio mai datganoli yw y datrysiad cywir oherwydd ei fod wedi'i ddatganoli mewn man arall.

Am y rheswm hwn, nid oes gan y Llywodraeth gynlluniau cyfredol i newid y trefniadau sydd wedi'u hen sefydlu a'u derbyn ar gyfer gwyliau banc yng Nghymru.

Mae Llywodraeth y DU yn parhau'n ymrwymedig i gyd-weithio hefo pob un o'r Llywodraethau Datganoledig er mwyn sicrhau bod sefydliadau'r DU yn gweithio ar y cyd fel un DU. Rydym yn gwerthfawrogi'r gweithio agos parhaus efo Llywodraeth Cymru tra hefyd yn parchu ei natur datganoledig, er mwyn sicrhau ein bod yn adeiladu economi gref a mentrus ar draws y Deyrnas Unedig.

Diolch eto am roi'r amser i ysgrifennu ataf.

Yn gywir,

PAUL SCULLY AS

Gweinidog ar gyfer Busnesau Bach, Defnyddwyr a Marchnadoedd Llafur
Gweinidog dros Lundain